# Rivaroxaban ar gyfer atal canlyniadau anffafriol ar ôl rheoli syndrom coronaidd acíwt yn llym

25 Mawrth 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Rivaroxaban (a elwir hefyd yn Xarelto) gydag aspirin ar ben ei hun, neu gyda aspirin a chlopidogrel. Mae'n driniaeth bosib ar gyfer oedolion sydd â math penodol o broblem gyda'r galon (syndrom coronaidd acíwt gyda biofarcwyr cardiaidd uchel). Y nod yw atal rhagor o broblemau, megis trawiad ar y galon neu strôc, a achosir gan dorthenni gwaed.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os ydych wedi cael syndrom coronaidd acíwt gyda biofarcwyr cardiaid uchel, a bod eich meddyg o'r farn mai rivaroxaban yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai eich meddyg drafod manteision a risgiau cymryd rivaroxaban gyda chi cyn dechrau neu barhau gyda thriniaeth. Dylai eich meddyg ail-asesu eich cyflwr a phenderfynu p'un a ddylid parhau â thriniaeth heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl dechrau'r driniaeth.

Dylai rivaroxaban fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

## Pam fod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Cafodd rivaroxaban ei argymell am ei fod yn gweithio cystal â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG ac mae'n costio tua'r un faint.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Syndrom coronaidd acíwt yw'r term a ddefnyddir ar gyfer grŵp o broblemau ar y galon. Mae'n cynnwys angina ansefydlog a thrawiadau ar y galon. Mae'r rhain yn broblemau ar y galon sy'n achosi poen neu anesmwythder yn y frest. Achosir y boen gan rwystr yn un o'r prif bibellau gwaed i'r galon (rhydwelïau coronaidd) neu fod un ohonynt wedi culhau. Ar ôl syndrom coronaidd acíwt, gall rhai unigolion fod â lefelau uwch o fiomarcwyr cardiaid yn eu gwaed. Mae biofarcwyr cardiaidd yn broteinau a gaiff eu rhyddhau i'r gwaed pan fydd cyhyr y galon wedi cael niwed.

Mae pobl sydd wedi cael syndrom coronaidd acíwt yn wynebu'r risg o gael rhagor o broblemau, megis trawiad ar y galon neu strôc, a achosir gan dorthenni gwaed.

Mae Rivaroxaban (a elwir hefyd yn Xarelto) yn gyffur allai leihau torthenni gwaed neu eu hatal rhag ffurfio. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer pobl sydd wedi cael syndrom coronaidd acíwt os bydd prawf gwaed yn dangos bod ganddynt biofarcwyr cardiaidd uwch. Dylai pobl sy'n cymryd rivaroxaban hefyd gymryd aspirin, neu aspirin gyda clopidogrel, bob dydd. Mae aspirin a chlopidogrel yn gyffuriau sy'n helpu i atal y gwaed rhag ceulo.

## Ffynonellau cyngor a chefnogaeth

- Pumping Marvellous, 0800 9788 133, www.pumpingmarvellous.org
- Sefydliad Prydeinig y Galon, 0300 330 3311, www.bhf.org.uk
- Cymdeithas Cleifion y Galon Prydain, 0122 384 6845, www.bcpa.co.uk
- Sefydliad Iechyd De Asia, 020 3313 0677, www.sahf.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1208-7